

**Gweithgareddau AGIC
a gorfodi:
Gwasanaethau Laser
Dosbarth 3B/4 a Golau
Pwls Dwys**

**Adroddiad
Blynyddol
2015 - 2016**

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1. Rhagair	5
2. Crynodeb gweithredol	6
3. Yr hyn a wnaethom	8
4. Yr hyn a welsom	11
Ansawdd profiad y claf	11
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	15
5. Casgliadau	17
6. Beth nesaf?	18
Atodiad A	19
Argymhellion	

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r cyhoedd o ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd i hybu gwelliannau.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Didwylledd a gonestrwydd: yn y ffordd rydym yn adrodd ac yn ein holl ymwneud â rhanddeiliaid
- Cydweithredu: adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynoldeb: cynnal safonau uchel o ddarpariaeth a cheisio gwella'n barhaus
- Cymesuredd: sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chymesuredd yn ein dull o weithredu.

Ein canlyniadau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Darparu sicrwydd annibynnol o ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal iechyd trwy adrodd yn agored ac yn eglur ar ein harolygiadau a'n hymchwiliadau.

Hyrwyddo gwelliant:

Annog a chefnogi gwelliannau mewn gofal trwy adrodd a rhannu arfer da a meysydd lle mae angen gweithredu.

Cryfhau llais cleifion:

Gwneud profiad y claf yn ganolog yn y prosesau arolygu ac ymchwilio.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio ein profiad o ddarparu gwasanaethau i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arfer.

1. Rhagair

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf AGIC ar gyfer gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys.

Diben yr adroddiad hwn yw crynhoi canfyddiadau ein harolygiadau yn ystod 2015-16 a thynnu sylw at y meysydd i'w gwella rydym wedi eu nodi ledled gwasanaethau. O ganlyniad i'r themâu a nodir yn ein harolygiadau, rydym wedi gwneud argymhellion trosfwaol ar gyfer gwasanaethau yn y maes hwn (Atodiad A).

Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys. Fodd bynnag, gwasanaethau gofal iechyd sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod cleifion yn derbyn triniaethau diogel ac effeithiol. Mae Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol ar ddarparwyr gwasanaeth yn hyn o beth.

Rydym yn gobeithio y bydd gwasanaethau ac unigolion sy'n gweithio yn y maes hwn yn ystyried cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn a'n hargymhellion trosfwaol yn ofalus ac yn eu defnyddio i wella eu gwasanaethau.

2. Crynodeb gweithredol

Mae gwasanaethau sy'n darparu triniaethau i gleifion trwy ddefnyddio laserau Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys¹ yn cael eu cofrestru gydag AGIC fel ysbytai annibynnol dan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu o fewn salonau prydferthwch a chlinigau ar gyfer triniaethau esthetig ar y croen, fel gwaredu blew, lleihau crychau a gwaredu tatŵs.

Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGIC gyfanswm o 19 o arolygiadau o wasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys ledled Cymru.

Er bod y rhan fwyaf o gleifion yn fodlon iawn ar eu profiadau wrth ymweld â'r gwasanaethau hyn, nododd ein harolygiadau nifer sylweddol o feysydd i'w gwella ac achosion o dorri rheoliadau yn y gwasanaethau y gwnaethom ymweld â nhw. Er i ni ganfod bod y rhan fwyaf o wasanaethau'n darparu triniaethau diogel ar y cyfan, gwnaethom nodi meysydd o bryder mewn chwech o wasanaethau yr oeddem yn credu y gallent beri risgiau i ddiogelwch cleifion. O ganlyniad, gwnaeth AGIC ofyn i'r gwasanaethau hyn ymatal yn wirfoddol rhag darparu'r gwasanaethau hyn ar gyfer cleifion nes i'r problemau hyn dderbyn sylw a nes i AGIC dderbyn sicrwydd digonol. Yn dilyn ein harolygiadau, dywedodd pump o'r gwasanaethau hyn eu bod am ganslo eu cofrestriad gydag AGIC, am nad oeddent bellach am ddarparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys.

Un peth a oedd yn peri pryder penodol oedd nad oedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'r safonau a'r rheoliadau ar gyfer darparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys. Yn ogystal, nid oedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau systemau a phrosesau effeithiol ar waith i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau perthnasol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Gwelsom fod angen i wasanaethau wella'r meysydd canlynol:

- Darparu hyfforddiant cyfredol i staff mewn defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys yn ddiogel
- Sicrhau defnydd diogel o laserau ac offer golau pwls dwys, gan gynnwys eu gwasanaethu'n rheolaidd, sicrhau bod rheolau lleol cyfredol ar gael,² a chysylltu â chynghorydd diogelu rhag laserau³
- Trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys hyfforddiant diogelu a pholisïau addas yn nodi gweithdrefnau eglur i staff eu dilyn
- Gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁴ yn unol â gofynion y rheoliadau

¹ Mae golau pwls dwys yn dechnoleg ffynhonnell olau sbectrwm eang sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i berfformio triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetig a therapiwtig.

² Dogfen ysgrifenedig yw rheolau lleol sy'n rhoi manylion am sut i weithredu a rheoli'r laser/golau pwls dwys yn ddiogel o ddydd i ddydd o fewn y sefydliad. Mae'n amod cofrestriad ag AGIC bod rheolau lleol ar waith ac yn cael eu hadolygu, o leiaf unwaith y flwyddyn, gan gynghorydd diogelu rhag laserau.

³ Mae cynghorydd diogelu rhag laserau yn arbenigwr ffiseg feddygol cymwys sy'n rhoi cyngor ar ddiogelwch gosodiadau laser/golau pwls dwys.

⁴ Bellach gelwir gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae'n ymwneud â gwirio cofnod troseddol unigolyn. Mae'r gwiriadau hyn yn ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ar gyfer unrhyw un sy'n rheoli neu'n gweithio mewn ysbyty annibynnol.

- Trefniadau ar gyfer rheoli risg ac iechyd a diogelwch
- Datblygu ac adolygu'r dogfennau, polisiâu a gweithdrefnau sy'n ofynnol dan y rheoliadau
- Systemau llywodraethu a sicrhau ansawdd effeithiol.

Lle'r oedd angen, roedd gofyn i wasanaethau gwblhau cynllun gwella er mwyn darparu sicrwydd i AGIC bod canfyddiadau o arolygiadau'n cael sylw. Yn gyffredinol, gwelsom fod ansawdd cynlluniau gwella'n wael, yn aml oherwydd nad oedd gwasanaethau wedi ymgyswddo'n ddigonol â gofynion y safonau a rheoliadau er mwyn cymryd camau priodol. Yn yr achosion hyn, fe wnaethom gymryd camau gweithredu pellach i sicrhau bod gwasanaethau'n rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i AGIC.

Mae adroddiadau ar bob un o'n harolygiadau a'u cynlluniau gwella perthnasol wedi eu cyhoeddi ar wefan AGIC.

3. Yr hyn a wnaethom

Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Mae gwasanaethau sy'n darparu triniaethau trwy ddefnyddio laserau Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys yn cael eu cofrestru gydag AGIC fel ysbytai annibynnol.

Mae arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.⁵

Yn 2015-16, datblygodd AGIC dull newydd o arolygu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys. Dyma'r flwyddyn gyntaf i wasanaethau brofi ein dull newydd o arolygu yn y maes hwn. Roedd hyn yn cynnwys rhoi rhybudd i wasanaethau oddeutu pedair wythnos ymlaen llaw a chyflwyno adroddiad arolygu mewn arddull newydd er mwyn i wasanaethau fod yn fwy clir ynghylch disgwyliadau dan y safonau a rheoliadau. Rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2016, cynhaliwyd 19 arolygiad ledled Cymru.

Rydym yn ceisio sicrhau na fydd cyfnod o fwy na thair blynedd rhwng arolygiadau ar gyfer y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, gellir arolygu gwasanaethau'n amlach wrth i ni ystyried canfyddiadau ein harolygiadau blaenorol, a gwybodaeth a hanesion rydym yn eu derbyn pan fyddwn yn ystyried ein dull arolygu sy'n seiliedig ar risg.

Rhodddwyd rhybudd ar gyfer pob arolygiad (pedair wythnos ymlaen llaw fel arfer) a chafodd pob arolygiad ei gynnal gan o leiaf dau aelod o staff AGIC.

Gwasanaethau gofal iechyd annibynnol sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd a diogelwch y triniaethau a ddarperir. Yn ystod pob arolygiad, ystyriodd AGIC a oedd systemau a phrosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn:

- Bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol perthnasol a chydymffurfio â rheoliadau
- Darparu gofal a thriniaethau o ansawdd uchel, ar sail tystiolaeth, drwy wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y claf/defnyddiwr gwasanaeth
- Monitro ansawdd y triniaethau a'r gwasanaethau yn barhaus
- Cywiro pethau'n gyflym, pan fyddant yn mynd o'u lle
- Darparu triniaethau a gwasanaethau yn unol â'r datganiad o ddiben.⁶

Gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau o dan dair thema yn ein hadroddiadau arolygu:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

⁵ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da.

<http://gov.wales/docs/legislation/inforcenonsi/nationalhealth/110401nmstandards16.pdf>

⁶ Datganiad o ddiben yw'r datganiad ysgrifenedig am y gwasanaeth y mae'n rhaid iddo fod ar waith yn unol â Rheoliad 6 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth fel ei nodau ac amcanion, staff, strwythur sefydliadol, y mathau o gyfleusterau, a thriniaethau a ddarperir.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle y bo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben, canllaw i gleifion a gwefan y gwasanaeth (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, gwnaethom ddarparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Mae ein harolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

Defnyddiodd AGIC ddull gweithredu cytbwys a chymesur wrth geisio camau gweithredu gan wasanaethau i roi sylw i unrhyw welliannau a nodwyd. Fodd bynnag, roedd sicrhau nad oedd cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn yn cael eu rhoi mewn perygl wrth galon y dull hwn. Os oes gan AGIC bryderon brys ynghylch diogelwch claf, mae'n codi ac uwchgyfeirio'r rhain ar adeg yr arolygiad ac yn gofyn iddynt gael eu datrys lle bo'n bosibl gan staff y gwasanaeth cyn diwedd yr arolygiad. Eleni, mae AGIC wedi gofyn ar sawl achlysur i wasanaethau ymatal yn wirfoddol rhag darparu triniaethau ar gyfer cleifion nes i'r materion hyn dderbyn sylw. Os nodir achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol sy'n arwain at ganlyniadau gwael i gleifion ac sy'n dynodi methiant systemig o fewn gwasanaeth, caiff y darparwr cofrestredig ei hysbysu trwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.⁷

Ar ôl pob arolygiad, anfonwyd adroddiad drafft at y gwasanaeth er mwyn iddo ei wirio am gywirdeb ffeithiol. Roedd hwn yn cynnwys cynllun gwella i'r gwasanaeth ei gwblhau, er mwyn hysbysu AGIC o'r camau gweithredu oedd yn cael eu cymryd i roi sylw i'r materion a nodwyd. Cafodd pob cynllun gwella ei werthuso ar wahân gan AGIC i benderfynu a oedd y gwasanaeth wedi ymateb yn briodol neu a oedd angen camau gweithredu pellach. Ar ôl cytuno ar y cynllun gwella, roedd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad arolygu ar wefan AGIC.

⁷ Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais

At ddibenion yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at gyfrifoldebau'r grwpiau/unigolion canlynol:

- **Rheolwr cofrestredig:** Unigolyn sy'n gofrestrdig dan Ran II o Ddeddf Safonau Gofal 2000 fel rheolwr gwasanaeth gofal iechyd annibynnol. Maent yn atebol yn lleol am sicrhau bod y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cydymffurfio â rheoliadau
- **Darparwr cofrestredig:** Unigolyn sy'n gofrestrdig dan Ran II o Ddeddf Safonau Gofal 2000 fel yr unigolyn sy'n cyflawni'r gwasanaeth gofal iechyd annibynnol
- **Gweithredwyr laser/golau pwls dwys:** Unrhyw un sy'n darparu unrhyw fath o driniaeth i gleifion yn defnyddio laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys.

4. Yr hyn a welsom

Ansawdd profiad y claf

Ymgysylltu â chleifion a chael adborth

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i wasanaethau ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Gwnaethom sylwi ar amrywiaeth sylweddol o ran nifer yr holiaduron cleifion a gwblhawyd ym mhob gwasanaeth. Roedd hyn yn bennaf oherwydd gwahaniaethau yn nifer y cleifion oedd wedi cael eu trin yn yr wythnosau cyn yr arolygiad, lle y gwelwyd ychydig iawn o gleifion gan rai gwasanaethau. Ar y cyfan, gwelsom fod cleifion yn fodlon iawn ar eu profiadau wrth ymweld â'r gwasanaethau. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn cytuno, neu'n cytuno'n gryf, â datganiadau bod gwasanaethau'n lân a thaclus, a bod y staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwrando, ac yn darparu digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Fodd bynnag, nid oedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau system gadarn ar waith i gael barn ac adborth gan gleifion yn rheolaidd fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'n ofynnol dan y rheoliadau hyn bod crynodeb o safbwyntiau cleifion yn cael ei gynnwys o fewn y canllaw i gleifio⁸ er mwyn i gleifion eu gweld, ond gwelsom fod hwn ar goll yn y rhan fwyaf o achosion.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Gwelsom fod yr holl wasanaethau'n darparu gwybodaeth briodol i gleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal. Mae hyn oherwydd i ni ganfod bod cleifion yn cael ymgynghoriad cyn y driniaeth ac yn derbyn gwybodaeth am y risgiau a'r buddiannau. Gofynnwyd hefyd i gleifion lofnodi i roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y driniaeth a chwblhau ffurflenni hanes meddygol. Er bod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi cofnodi gwybodaeth briodol am bob triniaeth a gyflawnwyd, gwelsom nad oedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi'n ddigonol mewn pedwar gwasanaeth. Gwnaethom atgoffa'r gwasanaethau o'u cyfrifoldebau dan y rheoliadau i sicrhau bod cofnodion gofal iechyd cynhwysfawr yn cael eu cadw ar gyfer yr holl driniaethau a ddarperir i gleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn unol â gofynion rheoleiddiol, rhaid i bob gwasanaeth sicrhau bod canllaw i gleifion a datganiad o ddiben ar waith, sy'n cynnwys manylion y mathau o wasanaethau a thriniaethau a ddarperir yn ogystal â gwybodaeth berthnasol arall am y gwasanaeth. Roedd yn siom felly i ganfod bod angen i chwarter y gwasanaethau greu o leiaf un o'r dogfennau hyn. Roedd angen i weddill y gwasanaethau wneud nifer o ddiwygiadau i'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion i sicrhau eu bod yn gywir, yn gyfredol, ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Gwelsom hefyd fod llawer o wasanaethau'n gwneud cyfeiriadau anghywir neu gamarweiniol mewn gwybodaeth a dogfennau i gleifion ynglŷn â'r rheoliadau a swyddogaeth AGIC fel rheoleiddiwr gofal iechyd annibynnol. Gwnaethom argymhell y dylai gwasanaethau roi sylw i hyn.

⁸ Canllaw i gleifion: Yn unol â Rheoliad 7 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol, rhaid i wasanaethau hefyd gael canllaw i gleifion sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol i gleifion, fel costau a thelerau ac amodau triniaeth, crynodeb o safbwyntiau cleifion, crynodeb o'r weithdrefn gwyno, a manylion cyswllt AGIC.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Er i ni ganfod bod y rhan fwyaf o wasanaethau'n darparu triniaethau diogel yn defnyddio laserau Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys, gwnaethom nodi meysydd o bryder mewn chwech o wasanaethau yr oeddem yn credu y gallent beri perygl i ddiogelwch cleifion. O ganlyniad, gwnaeth AGIC ofyn i'r gwasanaethau hyn ymatal yn wirfoddol rhag darparu'r gwasanaethau hyn ar gyfer cleifion nes i'r materion hyn dderbyn sylw ac i AGIC dderbyn sicrwydd digonol. Yn dilyn ein harolygiadau, dywedodd pump o'r gwasanaethau hyn eu bod am ganslo eu cofrestriad ag AGIC, am nad oeddent bellach am ddarparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys. Rhoddodd y chweched gwasanaeth sicrwydd i AGIC fod y materion a nodwyd wedi cael sylw fel mater o frys, fel nad oedd cleifion mewn perygl.

Hyfforddiant

Mae hyfforddiant rheolaidd yn bwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw un sy'n darparu triniaeth yn defnyddio laser/golau pwls dwys yn gwbl ymwybodol o'r peryglon a'r gofynion diogelwch sy'n gysylltiedig â defnydd ohonynt. Gall methu â mynychu hyfforddiant rheolaidd olygu efallai na fydd gan y gweithredwyr laser a golau pwls dwys y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflawni triniaethau'n ddiogel.

Yn y rhan fwyaf o wasanaethau, gwelsom fod y staff a oedd yn darparu triniaethau wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn diogelwch laser a golau pwls dwys a adwaenir fel Craidd Gwybodaeth⁹ a hefyd wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau'n ddiogel (a ddarperir gan y gwneuthurwr fel arfer). Fodd bynnag, roedd angen i staff mewn nifer o wasanaethau fynychu hyfforddiant diweddarau gan fod yr hyfforddiant gwreiddiol wedi'i gynnal dros dair blynedd yn ôl. Cadarnhawyd pa mor bwysig yw hyn ar ddiwrnod yr arolygiad ac roedd yn ofynnol bod gwasanaethau'n rhoi sylw i hyn.

Gwasanaethu a chynnal a chadw offer

Yn unol â'r gofynion rheoliadol, rhaid i'r holl offer fod yn ddiogel, mewn cyflwr da, ac yn addas i'w ddefnyddio. Mae gwasanaethau a graddnodi offer laser a golau dwys yn rheolaidd yn bwysig as gyfer bodloni'r gofyniad hwn.

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y rhan fwyaf o wasanaethau i wasanaethu eu hoffer laser a golau pwls dwys yn rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai gwasanaethau'n gallu darparu tystiolaeth bod eu peiriannau wedi cael eu gwasanaethu'n addas. Gwnaethom argymhell bod gwasanaethau'n rhoi sylw i hyn a bod cofnodion gwasanaethu'n cael eu cadw.

Er mwyn sicrhau bod staff a chleifion yn cael eu diogelu pan fydd peiriannau laser a golau pwls dwys yn cael eu defnyddio, rhaid gwisgo cyfarpar diogelu llygaid bob amser. Er bod gan bob gwasanaeth a arolygwyd gennym gyfarpar diogelu llygaid ar waith, roeddem yn bryderus i weld cyfarpar wedi ei ddifrodi mewn nifer o wasanaethau. Yn yr achosion hyn, gwnaethom ofyn i'r gwasanaethau beidio â darparu triniaethau i gleifion nes bod cyfarpar diogelu llygaid arall ar waith. Mewn nifer o wasanaethau, gwelsom hefyd fod angen glanhau cyfarpar diogelu llygaid a gwnaethom argymhell bod gwasanaethau hefyd yn sicrhau bod y cyfarpar hwn yn cael ei wirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

⁹ Bwriedir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio systemau laserau a golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad ar ddefnyddio systemau golau pwls dwys a laserau'n ddiogel

Cynghorydd diogelu rhag laserau

Mae'n ofynnol bod gan bob gwasanaeth gynghorydd diogelu rhag laserau, i roi cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd, yr offer, a sut i'w gweithredu o ddydd i ddydd. Mae hyn yn hanfodol i ddiogelwch cleifion sy'n derbyn triniaeth. Mae AGIC yn disgwyl i gynghorydd diogelu rhag laserau archwilio'r meysydd hyn o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn bodloni'r gofyniad hwn.

Er bod gan y rhan fwyaf o wasanaethau contract gyda chynghorydd diogelu rhag laserau, roedd yn peri pryder i ni nad oedd gan ddau wasanaeth gynghorydd ar waith. Yn ogystal, gwelsom mai dim ond trefniadau trwy hunanasesiadau o bell oedd gan nifer o wasanaethau gyda chynghorydd diogelu rhag laserau, trwy e-bost a ffôn, yn hytrach na thrwy gynnal ymweliad â'r gwasanaeth ar y safle. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, gwelsom nad oedd cynghorydd diogelu rhag laserau wedi ymweld â'r gwasanaeth am nifer o flynyddoedd, a gwelsom dystiolaeth nad oedd pob perygl posibl wedi'i asesu'n ddigonol, megis difrod i'r cyfarpar diogelu llygaid a'r arwynebau adlewyrchol. Felly nid oedd AGIC yn gallu bod yn sicr bod y trefniadau hunanasesu'n yn ddigonol i sicrhau diogelwch yr amgylchedd, yr offer a'r cleifion yn y gwasanaethau hyn. Roedd yn ofynnol bod gwasanaethau hyn yn trefnu ymweliad â'r safle gan gynghorydd diogelu rhag laserau cyn gynted â phosibl ar ôl yr arolygiad.

Rheolau lleol ar gyfer defnyddio offer yn ddiogel

Rhaid bod rheolau lleol ar waith ar gyfer pob peiriant laser a golau pwls dwys sy'n cael ei ddefnyddio sy'n dangos yn fanwl sut i ddefnyddio'r offer yn ddiogel. Mae'n ofyniad cofrestru gan AGIC bod yn rhaid i'r cynghorydd diogelu rhag laserau adolygu'r rheolau lleol o leiaf unwaith y flwyddyn.

Gwelsom fod gan y rhan fwyaf o wasanaethau reolau lleol a oedd wedi'u llofnodi gan y cynghorydd diogelu rhag laserau, a phob gweithredwr, i ddangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn a'u bod yn cytuno i'w dilyn. Fodd bynnag, nid oedd gan chwarter y gwasanaethau reolau lleol cyfredol ar waith, ac nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu hadolygu ers nifer o flynyddoedd. Gwnaethom hefyd ganfod nifer o achosion lle'r oedd y rheolau lleol yn cynnwys cyfeiriadau anghywir at ofynion rheoleiddiol ac agweddau ar yr offer oedd ar waith ac fe wnaethom argymhell bod gwasanaethau'n rhoi sylw i hyn gyda'u cynghorydd diogelu rhag laserau.

Rheoli heintiau

Yn gyffredinol, gwelsom fod gwasanaethau yn lân ac yn daclus yn ôl pob golwg ac roedd ganddynt drefniadau addas ar gyfer rheoli heintiau. Fodd bynnag, yn aml nid oedd y trefniadau hyn yn ddigon manwl o fewn polisi rheoli heintiau ac roedd angen i'r rhan fwyaf o wasanaethau wneud diwygiadau i roi sylw i hyn. Cawsom siom i ganfod nad oedd gan chwarter y gwasanaethau bolisi rheoli heintiau ar waith, er bod hyn yn ofyniad rheoleiddiol amlwg.

Diogelu

Gwelsom fod angen gwella'r trefniadau ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn y rhan fwyaf o wasanaethau a arolygwyd gennym. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd angen i wasanaethau adolygu a diweddarau eu polisiau i ddarparu gweithdrefn eglur y

dylai staff ei dilyn pe byddai pryder yn ymwneud â diogelwch, gan gynnwys y sefydliadau lleol perthnasol ar gyfer hysbysu'r pryderon hyn. Gwelsom hefyd nad oedd y rhan fwyaf o reolwyr cofrestredig a gweithredwyr laser/golau pwls dwys wedi mynychu hyfforddiant diogelu. Nid oedd gan chwarter y gwasanaethau bolisi diogelu na hyfforddiant ar waith.

Lle'r oedd gwasanaethau wedi eu cofrestru i ddarparu triniaethau i blant dan 18 oed, gwelsom yn aml fod angen gwella'r trefniadau ar gyfer diogelu'r cleifion hyn. Roedd hyn yn cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer cael caniatâd claf neu ganiatâd rhiant a'r trefniadau ar gyfer cael hebryngwr/rhiant neu warcheidwad yn bresennol yn ystod triniaethau, pe bai'n briodol.

Mae'n ofyniad rheoleiddiol bod unrhyw unigolyn sy'n rheoli neu'n gweithio mewn gwasanaeth gofal iechyd annibynnol yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd wedi ei gynnal o fewn y tair blynedd diwethaf. Er gwaethaf hyn, o'r 19 o wasanaethau a arolygwyd gennym, nid oedd 15 o wasanaethau'n cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

Iechyd a diogelwch

Gwelsom amrywiaeth yn ansawdd y trefniadau iechyd a diogelwch yn y gwasanaethau a arolygwyd gennym. Gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Y trefniadau diogelwch tân, gan gynnwys asesiad risg tân cynhwysfawr a chyfredol, gan sicrhau bod allanfeydd tân wedi'u harwyddo ac yn rhydd rhag rhwystrau a bod diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd
- Cwblhau profion dyfeisiau cludadwy rheolaidd
- Cynnal gwiriad gwifrau bob pum mlynedd yn yr adeilad
- Aseidiadau risg amgylcheddol cyfredol
- Trefniadau ar gyfer diogelu offer laser/golau pwls dwys er mwyn atal defnydd heb awdurdod
- Sicrhau bod defnyddiau yn y blychau cymorth cyntaf o fewn eu dyddiadau defnyddio, yn addas ac yn ddiogel, a'u bod yn cael eu hamnewid pan fydd hynny'n briodol.

Lle'r oeddem yn teimlo nad oedd cleifion ac aelodau o'r cyhoedd wedi cael eu diogelu'n ddigonol rhag perygl tân, gwnaethom rannu ein canfyddiadau gyda'r awdurdod diogelwch tân priodol. Er enghraifft, mewn un gwasanaeth mewn marchnad fawr dan do, nid oeddem yn gallu gweld tystiolaeth bod asesiad risg tân ar waith, nid oedd y staff yn glir ynghylch y weithdrefn y dylid ei dilyn pe bai tân, nid oedd larymau tân yn cael eu gwirio'n rheolaidd, ac nid oedd ymarferion tân yn cael eu cynnal. Felly gwnaethom rannu ein pryderon gyda Gwasanaeth Tân De Cymru, a aeth i ymweld â'r safle.

Cafodd gwasanaethau ac unigolion cofrestredig eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau dan y rheoliadau i sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles cleifion a staff.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Llywodraethu ac atebolrwydd

Mae gwasanaethau sy'n darparu triniaethau i gleifion trwy ddefnyddio laserau Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys yn cael eu cofrestru gydag AGIC fel ysbytai annibynnol. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu mewn lleoliadau anfeddygol fel salonau prydferthwch a chlinigau ar gyfer triniaethau esthetig ar y croen (e.e. gwaredu blew, lleihau crychau a gwaredu tatŵs).

Roedd yn peri pryder i ni nad oedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'r safonau a'r rheoliadau ar gyfer darparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys. O ystyried canfyddiadau ein harolygiadau, nid oedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau systemau a phrosesau effeithiol ar waith i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau perthnasol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Cyn yr arolygiadau, rhoddodd AGIC restr o'r dogfennau, polisïau a gweithdrefnau gofynnol¹⁰ i'r gwasanaethau, tua phedair wythnos ymlaen llaw. Roedd yn siom felly nad oedd nifer o wasanaethau wedi bod yn ddigon rhagweithiol o ran sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

Roedd angen i'r rhan fwyaf o wasanaethau ddiwygio eu polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cynnwys gwybodaeth gywir a pherthnasol. Roedd yn peri pryder i ni ganfod nad oedd gan bedwar gwasanaeth unrhyw bolisïau a gweithdrefnau ar waith o gwbl, er bod hyn yn ofyniad amlwg gan y rheoliadau. Gwelsom hefyd nad oedd nifer o wasanaethau wedi diweddarau eu polisïau'n unol â gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol 2011 a'u bod yn dal i gyfeirio at reoliadau sydd wedi cael eu disodli (Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol 2002).

Yr hyn a oedd yn peri pryder arbennig i ni oedd y meysydd sylweddol a oedd angen eu gwella mewn nifer fechan o wasanaethau, a oedd yn dangos gwendid mawr yn nhrefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu'r gwasanaethau hyn, er bod hyn yn ddisgwyliad a nodir yn glir yn y rheoliadau a'r safonau. Yn dilyn ein harolygiadau, dywedodd llawer o'r gwasanaethau hyn eu bod am ganslo eu cofrestriad gydag AGIC, am nad oeddent bellach am ddarparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu cadarn, ac ymateb prydlon gan y darparwr cofrestredig wrth ddatrys pryderon, yn arwyddion pwysig o allu darparwr cofrestredig i gynnal ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a medr digonol. Mae AGIC yn disgwyl i ddarparwyr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i ganfyddiadau ein harolygiadau, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi gan AGIC oherwydd diffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau.

O ystyried ein canfyddiadau, bydd AGIC yn cymryd camau dilynol yn sgil yr arolygiadau a gynhaliwyd gennym yn 2015-16, er mwyn ceisio sicrhwydd bod gwasanaethau wedi cymryd y camau priodol i roi sylw i'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod ein harolygiadau ac i ystyried a oes angen camau gweithredu pellach gan AGIC.

¹⁰ Mae rhestr o'r polisïau a gweithdrefnau sydd eu hangen cyn yr arolygiad ar wefan AGIC – <http://hiw.org.uk/about/whatwedo/inspect/Laser/?skip=1&lang=cy>

Ymdrin â phryderon a chwynion

Er i'r rhan fwyaf o wasanaethau ddweud wrthym nad oeddent wedi derbyn chwynion ysgrifenedig, roedd gan y rhan fwyaf ohonynt bolisi cwyno ar waith a threfniadau ar gyfer cofnodi pryderon pe baent yn eu derbyn. Roedd angen diweddarau llawer o'r polisiau cwyno a welsom er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn cynnwys manylion cyswllt AGIC er mwyn i gleifion leisio eu pryderon. Gwnaethom hefyd gynghori gwasanaethau i gofnodi unrhyw gwynion llafar ac anffurfiol er mwyn nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.

Rheoli cofnodion

Yn gyffredinol, gwelsom fod cofnodion cleifion a gwybodaeth ynglŷn â thriniaethau laser a golau pwls dwys yn cael eu cadw'n ddiogel er mwyn helpu i gadw cyfrinachedd cleifion. Fodd bynnag, roedd angen i rai gwasanaethau wella'r maes hwn, gan gynnwys sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw mewn man diogel a oedd dan glo pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Arferion recriwtio a chyflogi gweithlu

Yn llawer o'r gwasanaethau a arolygwyd gennym, dim ond y rheolwr cofrestredig oedd yn gweithredu triniaethau laser a golau pwls dwys, felly nid oedd gwybodaeth ynghylch trefniadau cynllunio na hyfforddiant y gweithlu yn rhan o'r arolygiadau hyn (e.e. sefydlu ac arfarniadau).

Roedd gan y rhan fwyaf o wasanaethau a oedd yn cyflogi staff i ddarparu triniaethau laser a golau pwls dwys drefniadau addas ar waith yn gyffredinol i helpu i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant sefydlu ac arfarniadau blynyddol, eu bod yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff, a'u bod yn gallu lleisio unrhyw bryderon. Gwnaethom gynghori gwasanaethau i sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu ffurfioli, gan gynnwys sicrhau bod cofnodion clir o hyfforddiant sefydlu ac arfarniadau'n cael eu cadw.

5. Casgliadau

Ar y cyfan, daethom i'r casgliad bod y meysydd i'w gwella a nodwyd ledled y gwasanaethau a arolygwyd gennym yn dangos diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gan ddarparwyr o'r safonau a rheoliadau sy'n ymwneud â darparu laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys. Er gwaethaf y rhwymedigaethau ar y busnesau hyn i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn bodloni'r safonau a rheoliadau angenrheidiol, roedd yn amlwg nad oedd llawer o ddarparwyr yn sicrhau bod y trefniadau a'r dogfennau a oedd yn ofynnol wrth gofrestru'n cael eu cynnal a'u cadw'n barhaus.

Un ffactor posibl a all fod yn cyfrannu at y problemau hyn yw bod y rhan fwyaf o wasanaethau sydd wedi cofrestru gydag AGIC yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol anfeddygol, llawer ohonynt ag ychydig iawn o brofiad blaenorol neu ddim profiad o weithio o fewn sectorau a reoleiddir. Fel gweithwyr proffesiynol anfeddygol, nid yw'r ddarparwyr hyn yn derbyn cefnogaeth gan gorff proffesiynol (fel y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ddeintyddion neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i feddygon) i'w cynorthwyo gyda datblygiad proffesiynol parhaus a chydymffurfiaeth reoleiddiol, er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Trwy gydol ein trafodaethau yn ystod arolygiadau, roedd yn ymddangos nad oedd llawer o ddarparwyr cofrestredig yn ymwybodol o'r ymrwymiad ariannol a rheolaethol, a'r ymrwymiad o ran amser, y mae ei angen arnynt er mwyn gallu cynnal eu gwasanaeth yn effeithiol a bodloni'r gofynion angenrheidiol. Roedd goblygiadau busnes hyn yn arbennig o amlwg yn y gwasanaethau llai a oedd yn trin nifer cymharol fechan o gleifion. Gwelsom fod y rhain yn ffactorau cyffredin a oedd yn arwain at benderfyniad gan ddarparwyr cofrestredig i ganslo eu cofrestriad yn dilyn ein harolygiadau.

6. Beth nesaf?

Fel rhan o'n gwaith, gwnaeth AGIC rannu canfyddiadau ein harolygiadau â rhanddeiliaid ac awdurdodau rheoleiddiol eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, Gweinidogion Cymru, ac awdurdodau tân perthnasol pan wnaethom nodi peryglon tân posibl. Bydd AGIC hefyd yn cymryd camau dilynol yn sgil ein harolygiadau yn 2015-16 i geisio sicrwydd bod gwasanaethau wedi cymryd camau digonol i roi sylw i'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym ac i ystyried a oes angen camau pellach gan AGIC.

Yn ystod 2015-16, gwnaethom ymgynghori â chynghorydd diogelu rhag laserau ynglŷn â'n dull o weithredu arolygiadau, sydd wedi bod yn hynod o ddefnyddiol o ran llywio ein gwaith o fewn y sector hwn. Byddwn yn parhau i gysylltu â chynghorwyr diogelu rhag laserau sy'n gweithio yng Nghymru yn ystod y flwyddyn i ddod, i rannu ein canfyddiadau a chodi ymwybyddiaeth o'r meysydd o bryder rydym yn eu nodi yn ein harolygiadau.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu gweithio'n agosach gyda'r Grŵp Cynghori Sefydlog Arbenigol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd, sy'n darparu cyngor gwyddonol arbenigol ar faterion diogelu rhag ymbelydredd (ïoneiddio ac nad yw'n ïoneiddio, gan gynnwys laserau a golau pwls dwys) trwy Bwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru, i helpu i lywio ein gwaith yn y maes hwn.

Yn ystod haf 2016, bydd AGIC yn darparu lleoliad ar gyfer cynghorydd diogelu rhag laserau dan hyfforddiant. Rydym yn credu y bydd hyn o fudd i bawb a bydd yn helpu i lywio methodoleg ein harolygiadau a'n dull o gofrestru ac arolygu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys ymhellach, yn ogystal â helpu i godi ymwybyddiaeth o AGIC a'i ddull gweithredu o fewn y sector.

Cyfarfu AGIC â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ddiweddar ac rydym wrthi'n ymchwilio i'r ffordd orau o rannu gwybodaeth a'r buddiannau cyffredin sydd gennym yn y maes hwn.

O ganlyniad i'r hyn rydym wedi ei ddysgu o'n harolygiadau a'r adborth rydym wedi ei dderbyn gan wasanaethau, rydym wedi parhau i adolygu a gwella ein proses o gofrestru gwasanaethau newydd. Rydym wedi cyflwyno cyfarfodydd gyda darparwyr arfaethedig ar ddechrau'r broses gofrestru, fel mesur ychwanegol, i roi mwy o fanylder ac eglurder ynglŷn â'r gofynion ar gyfer cofrestru a disgwyliadau a goblygiadau parhaus cynnal gwasanaeth cofrestredig.

Bydd AGIC yn parhau i archwilio gwybodaeth a dderbyniwyd am wasanaethau nad ydynt wedi cael eu cofrestru a allant fod yn darparu gwasanaethau laser a golau pwls dwys ac a allant fod angen cofrestru arnynt. Yn ystod 2015-16, arweiniodd hyn at 21 ymweliad dirybudd â'r gwasanaethau hyn. Cynhaliwyd yr ymweliadau hyn i ddarganfod a yw gwasanaethau cofrestradwy'n cael eu darparu ac i hysbysu bod gwneud hynny'n drosedd a all arwain at erlyn. Arweiniodd ein hymweliadau at yr angen i bedwar gwasanaeth gofrestru ag AGIC. Bydd unrhyw leoliadau sy'n parhau i ddarparu gwasanaethau laser Dosbarth 3B/4 neu olau pwls dwys heb gael eu cofrestru'n destun camau pellach dan broses orfodi AGIC.¹¹

¹¹ Mae manylion proses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar ein gwefan <http://hiw.org.uk/providing/enforce/?skip=1&lang=cy>

Atodiad A

Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiadau o wasanaethau sy'n defnyddio laser Dosbarth 3B/4 a golau pwls dwys yn 2015-16, rydym wedi gwneud yr argymhellion trosfwaol canlynol y dylai pob gwasanaeth eu hystyried fel rhan o ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol.

Argymhellion	Rheoliad / Safon
Profiad y claf	
Rhaid cadw cofnodion gofal iechyd manwl a chofrestr o bob triniaeth a roddwyd.	Rheoliad 23 a 45
Rhaid bod canllaw i gleifion a datganiad o ddiben ar waith, a rhaid eu hadolygu'n rheolaidd.	Rheoliad 6 a 7
Rhaid i wasanaethau gasglu barn ac adborth cleifion yn rheolaidd, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.	Rheoliad 19 (2) (e)
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	
Rhaid sicrhau bod cynghorydd diogelu rhag laserau ar gael sy'n asesu ac yn rhoi cyngor ar sut i ddefnyddio offer laser/golau pwls dwys mewn modd diogel a sut i'w gweithredu o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn ol yr angen.	Rheoliad 15 ac 19 Safon 16
Rhaid i bob gweithredwr laser/golau pwls dwys fod wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar ddefnyddio'r offer hyn a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.	Rheoliad 45 (3) Safon 25
Rhaid cadw'r holl offer mewn cyflwr diogel ac addas, a dylid gwasanaethu peiriannau laser/golau pwls dwys yn rheolaidd.	Rheoliad 15
Rhaid sicrhau bod rheolau lleol ar waith a rhaid iddynt gael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gan gynghorydd diogelu rhag laserau.	Amodau cofrestru AGIC Rheoliad 15 Safon 16
Rhaid sicrhau bod prosesau cadarn ar waith i sicrhau lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys darparu hyfforddiant i staff yn y maes hwn a chael polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith.	Rheoliad 16 Safon 11

Argymhellion	Rheoliad / Safon
Profiad y claf	
Rhaid sicrhau bod yr holl fesurau a rhagofalon priodol ar waith i warchod iechyd a diogelwch cleifion, gan gynnwys pob mesur priodol o ran diogelwch tân ac asesiadau risg cynhwysfawr.	Rheoliad 15, 19 a 26
Rhaid sicrhau bod cyfarpar diogelu llygaid, sydd mewn cyflwr da, ar gael bob amser.	Rheoliad 15
Rhaid sicrhau bod trefniadau rheoli heintiau addas ar waith, gan gynnwys polisi sy'n cynnwys manylion y trefniadau hyn.	Rheoliad 9 ac 15
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	
Rhaid sicrhau bod systemau rheoli a sicrhau ansawdd effeithiol ar waith mewn gwasanaethau i sicrhau cydymffurfriad â'r safonau a rheoliadau, er mwyn sicrhau bod triniaethau laser diogel ac effiethiol yn cael eu darparu i gleifion.	Rheoliad 19
Rhaid sicrhau bod polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn unol â'r gofynion rheoliadol a dylid eu hadolygu'n barhaus.	Rheoliad 9
Dylid hysbysu cleifion yn eglur ynglŷn â sut i wneud cwyn a rhaid sicrhau bod polisi cwyno priodol ar waith.	Rheoliad 24
Dylai pob unigolyn cofrestredig a gweithredwr laser/golau pwls dwys feddu ar dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Rheoliad 12 a 21 ac Atodlen 2
Rhaid sicrhau bod mesurau addas ar waith i sicrhau diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth am gleifion.	Rheoliad 23